

Prosiect Biaddiogelwch Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) – Mawrth 2021

Beth a pham? - Biaddiogelwch a rhywogaethau goresgynnol



Llun o gimwch Americanaidd © Crown copyright

Mae rhywogaethau goresgynnol estron (INNS) yn blanhigion ac anifeiliaid nad ydynt yn bodoli'n naturiol yn yr ardal ond sydd wedi'u symud yma, yn bennaf drwy weithgareddau dynol, ac sy'n achosi difrod sylweddol. Maent yn cystadlu'n well na rhywogaethau cynhenid, yn cyflwyno clefydau ac amcangyfrifir eu bod yn costio oddeutu £1.7 biliwn i economi Prydain bob blwyddyn. Mae INNS morol yn cyrraedd drwy amrywiaeth o 'lwybrau' gan gynnwys dŵr balast, glynu ar gyrff/cyfarpar llongau, cael eu cario gyda stoc dyframaeth, gweithgareddau megis hwylio hamdden, cludo ar longau, gweithgareddau pysgota, abwyd byw, dyframaeth a thwristiaeth. Mae biaddiogelwch yn golygu gweithredu camau syml i'w hatal rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu. Mae llawer yn haws eu hatal rhag cyrraedd yn y lle cyntaf na chael gwared â nhw wedi iddynt gyrraedd, yn enwedig mewn amgylchedd morol. Mae cynllun biaddiogelwch PLAS yn canolbwyntio ar y pethau y gallwn eu gwneud i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu INNS morol.



Ein cynnydd hyd yma

Rydym wedi bod yn casglu tystiolaeth ar gyfer y cynllun biaddiogelwch, gan gynnwys:

- Gweld pa INNS morol sy'n bresennol yn yr ardal yn barod a pha rywogaethau sy'n debygol o gyrraedd yn y dyfodol.
- Nodi ardaloedd risg uchel a gweithgareddau â risg uchel o gyflwyno a lledaenu INNS morol.
- Ymchwilio i'r effaith caiff yr INNS yma ar gynefinoedd morol pwysig, pysgota a dyframaethu, gweithgareddau hamdden, ac ati.

Gweithgareddau eraill sydd wedi digwydd:

- Dosbarthu holiaduron a gwybodaeth i randdeiliaid i ddarganfod pa fathau o gamau biaddiogelwch y gallai fod eu hangen a pha bethau mae rhanddeiliaid yn eu gweld fel bygythiad.
- Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau goresgynnol morol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, erthyglau a rhannu gwybodaeth.
- Gweithio mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Fiolegol Forol i greu canllawiau i adnabod rhywogaethau goresgynnol morol yng Nghymru.



Beth sydd nesaf?

Mae angen mewnbyn pellach gan randdeiliad arnom i'n helpu i nodi gweithgareddau biaddiogelwch dichonadwy, megis hyfforddiant (i adnabod ac adrodd ar INNS), arwyddion a phosteri, darparu cyfleusterau glanhau, creu a dilyn canllawiau (ar lanhau cyrff/cyfarpar llongau, ar gyfer cystadlaethau pysgota, peidio defnyddio INNS fel abwyd, ac ati).

Byddwn yn parhau i weithio ar gynlluniau gweithredu ar gyfer lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu INNS a'r lwybrau sy'n caniatáu iddynt gyrraedd a lledaenu. Rydym hefyd yn gweithio ar greu taflenni ffeithiau ar rywogaethau, edrych ar leoliadau a dulliau i fonitro INNS morol, yn ogystal â gweithio ar ychwanegu amrywiaeth o'r rhywogaethau yma i ap Cofnodi Dalfeydd y Llywodraeth er mwyn i bysgotwyr allu cofnodi'n wirfoddol.

Rydym yn gobeithio cynnal gweithdy ar-lein ym mis Mehefin a chaiff manylion pellach eu rhannu unwaith y bydd hyn wedi ei gadarnhau.

Byddai'n wych cael clywed gennych chi, cysylltwch â Chloe ar

chloe.powelljennings@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch 07813407562 am fwy o wybodaeth.